



WLGA • CLILC



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

# Amrywiaeth mewn Democratiaeth

## Cynghorau a Chynghorwyr: Cyflwyniad



Medi 2015

## 1. Pam dylwn i fod yn gynghorydd?

Mae pobl yn penderfynu bod yn gynghorwyr am bob math o resymau. Y rheswm yn aml yw eu bod yn weithgar yn eu cymuned, bod ganddynt ymrwymiad i blaid wleidyddol benodol neu eu bod yn gweld rhywbeth yn eu cymuned sydd angen ei newid.

Beth bynnag yw'r rheswm, mae'n deg dweud eu bod yn aml yn synnu at amrywiaeth a maint y gwaith sydd ei angen. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o gynghorwyr wrth eu bodd â'u gwaith, hyd yn oed os ydyw'n fwy heriol nag yr oeddent wedi'i ddisgwyl.

Mae'n rhaid i gynghorwyr (y cyfeirir atynt weithiau fel aelodau, gan eu bod yn aelodau etholedig o awdurdod lleol) ymdopi â nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau. Mae angen i gynghorwyr gydbwyso anghenion a buddiannau eu cymuned, eu plaid neu eu grŵp gwleidyddol (os ydynt yn aelod) a'r cyngor cyfan. Er mwyn bod yn gynghorydd mae gofyn cael ymroddiad personol, ac mae angen rhoi llawer o amser i'r gwaith er mwyn ei wneud yn effeithiol, yn ychwanegol at ymrwymadau personol ac ymrwymadau i gyflogwr. Fodd bynnag, mae dod yn gynghorydd yn fath o wasanaeth cyhoeddus sy'n rhoi llawer o foddhad ac ymdeimlad o fraint personol. Os cewch eich ethol byddwch mewn sefyllfa i wneud gwahaniaeth go iawn i safon bywydau beunyddiol a rhagolygon pobl eraill.

Mae'r arweinlyfr hwn i rai sy'n cael eu mentora wedi cael ei ddatblygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sef y corff sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Mae'n cynrychioli awdurdodau lleol yng Nghymru yn ogystal â'r Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac mae'n gweithio gydag awdurdodau i gefnogi cynghorwyr.

Y bwriad yw ichi ddefnyddio'r arweinlyfr hwn fel cyflwyniad sydyn i'r wybodaeth sylfaenol y mae angen i chi ei hystyried wrth baratoi i sefyll etholiad. Mae'n debyg y bydd arnoch angen llawer mwy o wybodaeth na'r hyn sydd yn y ddogfen hon, felly ceir dolenni trwy gydol y testun i ragor o wybodaeth ar y rhyngwyd, yn ogystal ag awgrymiadau am gwestiynau y gallwch eu gofyn i'ch mentor.

## 2. Beth mae cynghorau yn ei wneud?

Mae gan awdurdodau lleol neu gynghorau ran ganolog yn y gwaith o lywodraethu Cymru, drwy ddarparu'r arweinyddiaeth a'r gwasanaethau angenrheidiol ar gyfer economïau lleol llwyddiannus a chymunedau lleol cynaliadwy. Mae 22 awdurdod lleol yng Nghymru gyda rhyw 1,254 o gynghorwyr. Mae pethau'n debygol o newid yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf; trafodir hyn yn Adran 3 isod.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru hefyd yn cael ei alw'n 'awdurdod unedol' (cynghorau un haen yw awdurdodau unedol, sy'n darparu holl swyddogaethau llywodraeth leol mewn ardal. Yn Lloegr, er enghraifft, mae'r darlun yn fwy cymhleth gan fod cymysgedd o lywodraeth leol un haen a dwy haen gan gynnwys cynghorau unedol, cynghorau sir a chynghorau dosbarth neu gynghorau bwrdeistref).

Mae cynghorau Cymru yn darparu dros 700 o wasanaethau lleol, gan gynnwys,

- **Addysg** e.e. ysgolion, trafnidiaeth ysgolion, dysgu gydol oes
- **Tai** e.e. darparu llety a gweinyddu budd-dal tai
- **Gwasanaethau Cymdeithasol** e.e. gofalu am ac amddiffyn plant, pobl hŷn a phobl anabl
- **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** e.e. cynnal ffyrdd a rheoli traffig
- **Rheoli Gwastraff** e.e. casglu sbwriel ac ailgylchu
- **Gwasanaethau Hamdden a Diwylliant** e.e. llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden
- **Gwarchod Defnyddwyr** e.e. safonau masnach, trwyddedau tacsis
- **Iechyd yr Amgylchedd a Gwasanaethau Amgylcheddol** e.e. diogelwch bwyd a rheoli llygredd
- **Cynllunio** e.e. rheoli datblygu lleol a gwneud yn siŵr bod adeiladau yn ddiogel
- **Datblygu Economaidd** e.e. denu busnesau newydd ac annog twristiaeth
- **Cynllunio ar gyfer Argyfyngau** e.e. llifogydd neu ymosodiadau terfysgol.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau lleol, cynghorau yw'r cyflogwyr mwyaf o bell ffordd yn eu hardaloedd, ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol.

Mae'n rhaid i gynghorau ddarparu rhai gwasanaethau statudol yn unol â'r hyn a amlinellir mewn deddfwriaeth, megis gofal cymdeithasol, archwiliadau iechyd yr amgylchedd a chynllunio. Gallant ddarparu gwasanaethau eraill yn ôl eu disgrisiwn. Mae cynghorau yn darparu rhai gwasanaethau yn uniongyrchol, yn darparu gwasanaethau eraill drwy weithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill, ac yn comisiynu cyrrff eraill megis y sector preifat a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan. Nid creu elw yw'r nod i gynghorau, er eu bod yn darparu rhai gwasanaethau masnach megis arlwy, a gwasanaethau sydd hefyd yn cael eu darparu gan y sector preifat megis canolfannau hamdden.

Mae gan gynghorau hefyd ddyletswyddau statudol ehangach, megis dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal a chael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon.

Ar hyn o bryd mae cynghorau'n gweithredu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gynghorau i sicrhau bod pob penderfyniad y maent yn ei wneud yn rhoi ystyriaeth i anghenion cenedlaethau'r dyfodol, felly os cewch eich ethol bydd angen i chi ddeall sut mae'r ddyletswydd hon yn effeithio ar y penderfyniadau yr ydych yn eu gwneud.

Cewch ragor o wybodaeth am lywodraeth leol yn Arweiniad CLILC i Gynghorwyr, sydd ar gael yma: Arweiniad i Gynghorwyr ([www.wlga.gov.uk/cyhoeddiadau-cynorthwyo-a-datblygu-cynghorwyr1/arweiniad-i-gynghorwyr-newydd-cymru-2012](http://www.wlga.gov.uk/cyhoeddiadau-cynorthwyo-a-datblygu-cynghorwyr1/arweiniad-i-gynghorwyr-newydd-cymru-2012)).

Edrychwch ar y gwasanaethau a ddisgrifir ar wefan eich cyngor lleol. Beth yw eich profiad o ddefnyddio'r gwasanaethau hyn? Ydych chi'n meddwl eu bod yn ddefnyddiol/effeithlon? Ewch i fy nghyngor lleol ([www.mylocalcouncil.info/default.aspx?lang=cy-GB](http://www.mylocalcouncil.info/default.aspx?lang=cy-GB)) i weld sut mae gwasanaethau eich cyngor yn cymharu ag eraill.

Gofynnwch i'ch mentor â phwy y gallech siarad yn y cyngor i ddysgu mwy am bob un o'r prif wasanaethau a ddarperir.

### 3. Sut gallai cynghorau newid?

Mae'r strwythur presennol o 22 o awdurdodau lleol wedi bodoli er 1996. Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylid diwygio llywodraeth leol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau presennol a rhai'r dyfodol.

Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru wedi cael eu llywio gan waith Comisiwn Williams (a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Ionawr 2014). Roedd yr adroddiad yn awgrymu bod y system lywodraethu yn gymhleth a bod graddfa yn broblem, a bod hynny yn ei dro yn effeithio ar arweinyddiaeth a pherfformiad gwasanaethau. Argymhellodd Williams uno awdurdodau presennol er mwyn creu 10–12 awdurdod.

Yn wreiddiol, cynigiodd Llywodraeth Cymru 12 awdurdod ond cyhoeddodd gynigion am rhwng 8 a 9 awdurdod ym mis Mehefin 2015.

Disgwylir y bydd pleidiau gwleidyddol yn rhoi manylion eu cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn eu maniffestos ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2016, cyn i gynlluniau terfynol a deddfwriaeth gael eu cyflwyno yn y Cynulliad.

Yn ôl y cynlluniau presennol, disgwylir y bydd yr etholiadau lleol nesaf (ar sail y map presennol o 22 cyngor) yn cael eu cynnal yn 2017, gydag etholiadau pellach yn 2019 (ar sail map newydd ar gyfer llywodraeth leol) a'r awdurdodau unedig newydd yn dod i fodolaeth yn 2020. Mae'n debygol y bydd tua thraean yn llai o gynghorwyr yn yr awdurdodau newydd.

Cewch ragor o fanylion am gynigion Comisiwn Williams a Llywodraeth Cymru ar [www.gov.wales/topics/localgovernment/councils-to-change/?skip=1&lang=cy](http://www.gov.wales/topics/localgovernment/councils-to-change/?skip=1&lang=cy)

### 4. Sut mae cynghorau yn cael eu hariannu?

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn meddwl mai'r dreth gyngor yw prif ffynhonnell ariannol cynghorau, ar gyfartaledd ar draws Cymru dim ond tua 25% o incwm cynghorau y mae'r dreth hon yn ei ddarparu. Yn wir, nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn sylweddoli bod y bil 'treth gyngor' y maent yn ei dalu bob blwyddyn hefyd yn cyfrannu at wasanaethau heddlu a thân lleol!

Daw'r mwyafrif helaeth o arian cynghorau lleol gan Lywodraeth Cymru, trwy gyfrwng y Grant Cynnal Refeniw. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu ffrydiau grant penodol ar gyfer rhaglenni penodol, ar gyfer prosiectau neu i gwrdd â thargedau penodol. Mae cynghorau'n derbyn dros £4 biliwn gan Lywodraeth Cymru yn 2015–16.

Mae cynghorau'n wynebu heriau cynyddol yn sgil rhaglen Llywodraeth y DU o gynt yn y sector cyhoeddus. Mae cyllidebau cynghorau'n crebachu ar adeg pan mae anghenion a phwysau demograffig yn cynyddu. Mae cynghorau'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch torri gwasanaethau a swyddi. Er bod gan gynghorau hyblygrwydd lleol o ran sut maent yn blaenoriaethu a gwario eu hadnoddau, mae'n rhaid ariannu rhai o'r gwasanaethau statudol a'r

rhai drutaf megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol a thai i lefel sy'n sicrhau safonau penodol. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau dewisol eraill, sef y rhai y mae'r cyhoedd fel arfer yn gweld y gwerth mwyaf iddynt, megis yr amgylchedd lleol, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a'r celfyddydau, yn dioddef pan mae arian yn brin. Cewch ragor o wybodaeth am gyllid llywodraeth leol yma: CLILC sut mae llywodraeth leol yn cael ei hariannu ([www.wlga.gov.uk/adnoddau-ariannu-byd-llywodraeth-leol](http://www.wlga.gov.uk/adnoddau-ariannu-byd-llywodraeth-leol)).

Mae cynghorau hefyd yn cynhyrchu rhywfaint o incwm drwy daliadau a ffioedd, megis am barcio ceir, taliadau canolfannau hamdden neu ffioedd cynllunio.

Gofynnwch i'ch mentor sut maent yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio a monitro ariannol yn eu hawdurdod, a pha benderfyniadau ariannol sydd wedi'u gwneud yn ddiweddar. Sut mae'r cyhoedd yn rhan o'r penderfyniadau? Os nad ydych wedi gwneud eisoes, edrychwch ar eich bil treth gyngor a'r daflen a ddaeth gydag ef i weld sut mae'r gwariant yn cael ei rannu. Ystyriwch ymuno â phanel dinasyddion eich cyngor neu grŵp tebyg i gyfrannu eich barn wrth i drafodaethau gael eu cynnal ar heriau a blaenoriaethau ariannu'r cyngor.

## 5. Pa gyrff eraill sy'n gysylltiedig â'r gwaith?

Mae cynghorau lleol yn gweithio gydag amryw o bartneriaid a chyrrff lleol a chenedlaethol i gyflenwi gwasanaethau lleol, rhoi cynrychiolaeth ddemocrataidd a darparu arweinyddiaeth strategol. Bydd llawer o'r partneriaid hyn yn grwpiau trydydd sector neu'n grwpiau cymunedol lleol, ond bydd nifer ohonynt yn gyrff sector cyhoeddus neu'n haenau eraill o lywodraeth.

Ceir pum haen o ddemocratiaeth yng Nghymru:

- **Senedd Ewrop** (4 ASE o Gymru) gwefan Senedd Ewrop ([www.europarl.europa.eu/](http://www.europarl.europa.eu/)).
- **Senedd y DU** (40 AS o Gymru) gwefan Senedd y DU ([www.parliament.uk/](http://www.parliament.uk/)).
- **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** (60 AC – 40 AC etholaethol ac 20 AC rhanbarthol) – gwefan y Cynulliad Cenedlaethol ([www.cynulliad.cymru/](http://www.cynulliad.cymru/)). Yn aml drysir rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Y Cynulliad yw senedd Cymru; mae Llywodraeth Cymru'n cynnwys Gweinidogion Cymru ac yn gosod yr agenda genedlaethol yng Nghymru megis ym meysydd gwasanaethau cymdeithasol, addysg, yr amgylchedd, cynllunio, trafnidiaeth a datblygu economaidd. Gwefan Llywodraeth Cymru ([www.llyw.cymru/](http://www.llyw.cymru/)).
- **Awdurdodau lleol** (a elwir hefyd yn awdurdodau unedol, cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol). Ceir 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru gyda rhyw 1,254 o gynghorwyr.
- **Cynghorau Cymuned a Thref** (735 o gynghorau a thua 8,000 o gynghorwyr) Mewn rhai achosion mae cynghorwyr yn aelodau o gyngor sirol neu gyngor bwrdeistref sirol (awdurdod unedol) yn ogystal â chyngor cymuned neu dref. Mae awdurdodau lleol yn aml yn gweithio'n agos gyda'u cynghorau cymuned a thref lleol. Ar hyn o bryd mae cynghorau cymuned a thref yn darparu gwasanaethau megis meysydd chwarae, parciau a lleoedd agored, neuaddau pentref, rhandiroedd a mynwentydd. Cewch ragor o wybodaeth am gynghorau cymuned a thref ar wefan Un Llais Cymru, y corff sy'n eu cynrychioli: Un Llais Cymru ([www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/Hafan\\_\\_16738.aspx](http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/Hafan__16738.aspx)).

Trefnwch i wyllo cyfarfod Cyngor Cymuned cyfagos. Siaradwch â'r Cadeirydd am y ffordd y maent yn gweithio gyda'r awdurdod lleol.

Gofynnwch i'ch mentor sut mae'r cyngor yn gweithio gyda'i gynghorau cymuned. A oes ganddynt drefniadau cydweithio ffurfiol?

Mae cynghorau hefyd yn gweithio gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus megis:

- **Byrddau Iechyd Lleol**
- **Awdurdodau Tân ac Achub**
- **Comisiynwyr Heddlu a Throsedd**
- **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**
- **Cyfoeth Naturiol Cymru**
- **Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru** – mae'r cyrff hyn yn archwilio, arolygu ac/neu reoleiddio awdurdodau lleol a'u gwasanaethau, ac yn adrodd ar safonau gwasanaeth, trefniadau llywodraethu ac/neu wariant arian cyhoeddus.

Mae cynghorau hefyd yn gweithio'n agos gyda chynghorau cyfagos i gynllunio, comisiynu neu ddarparu gwasanaethau ar y cyd.

Mae llawer o sefydliadau a chyrff eraill yn ymwneud â llywodraethu lleol a chenedlaethol a darparu gwasanaethau. Mae'r arweinyfr hwn yn rhoi gwybodaeth gefndirol am lywodraeth leol; i gael rhagor o wybodaeth am sefydliadau eraill, ewch i wefannau'r sefydliadau uchod.

## 6. Beth mae cynghorwyr yn ei wneud?

Mae cynghorwyr yn bobl sy'n cael eu hethol i gynrychioli eu cymunedau lleol yn y gwaith o redeg eu cynghorau lleol. Mae cynghorwyr yn helpu i benderfynu sut mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu, eu hariannu a'u blaenoriaethu.

Amcangyfrifir bod cynghorwyr, ar gyfartaledd, yn treulio'r hyn sy'n cyfateb i dridiau'r wythnos ar fusnes y cyngor. Mae llawer o gyflogwyr yn cydnabod gwerth gwaith cynghorwyr a'r sgiliau y bydd eu gweithwyr yn eu magu yn y swydd ac felly'n darparu amser o'r gwaith neu hyblygrwydd i chi ymgymryd â'ch dyletswyddau ar y cyngor. Mae rhagor o wybodaeth i gyflogwyr ar gael ar busnesau yn cefnogi cymunedau ([www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/150605-did-businesses-supporting-communities-cy.pdf](http://www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/150605-did-businesses-supporting-communities-cy.pdf)).

Er mwyn bod yn gynghorydd mae angen ymroddiad, amynedd a chadernid. Gall fod yn waith anodd ac yn llawn straen ond gall hefyd fod yn waith diddorol iawn sy'n rhoi llawer o foddhad. Dyma rai o'r prif swyddogaethau y mae cynghorwyr yn eu cyflawni.

### Cynrychioli Cymunedau

Mae pob cynghorydd yn eiriolwr ar ran ei gymuned ac yn 'weithiwr achos' ar gyfer ei etholwyr unigol pan fyddant yn gofyn am gyngor neu gefnogaeth. Mae llawer o amser cynghorydd yn cael ei dreulio yn ei gymuned yn siarad ac yn gweithio gydag aelodau o'r cyhoedd a grwpiau cymunedol. Fel arfer, gelwir y swyddogaeth hon yn arweinyddiaeth gymunedol. I'r cynghorydd



unigol, gall bod yn arweinydd cymunedol olygu nifer o bethau. Gweithredu fel eiriolwr er budd ei adran etholiadol; lobio ar faterion lleol; dylanwadu ar sefydliadau partner i weithio tuag at weledigaeth gyffredin; datrys gwrthdaro rhwng mudiadau cymunedol; annog mudiadau cymunedol i ddatblygu atebion yn eu cymunedau eu hunain; cydbwysu gwahanol alwadau am adnoddau wrth wneud penderfyniadau sydd er budd holl ardal yr awdurdod.

I fod yn arweinydd cymunedol effeithiol mae angen i gynghorwyr siarad gyda'r gymuned a bod yn glir ynghylch anghenion a theimladau etholwyr. Ni fydd cynghorwyr yn gallu helpu pawb fel y byddent yn hoffi gallu gwneud ond mae angen iddynt fod yn onest ac yn agored am y penderfyniadau y maent yn eu gwneud a sicrhau bod safbwyntiau trigolion yn cael eu clywed – cynghorwyr yw eu llais ar y cyngor. Bydd angen i gynghorwyr hefyd allu cyfleu polisiau a safbwynt y cyngor i'r gymuned, gan sicrhau eu bod yn deall pam, er enghraifft, mae penderfyniadau wedi'u gwneud – hyd yn oed penderfyniadau amhoblogaidd.

Er mwyn gallu gweithredu'n effeithiol fel cynghorydd, byddai disgwyl ichi:

- Adnabod eich cymuned leol (a elwir hefyd yn ward neu adran etholiadol).
- Cynnal cymorthfeydd – yn rheolaidd ac yn aml. Mae'r rhain yn gyfle i etholwyr gwrdd â chi wyneb yn wyneb.
- Cyfathrebu yn effeithiol – anfon newyddlenni, ac ymateb bob amser i alwadau ffôn, negeseuon e-bost a llythyrau. Defnyddiwch gyfryngau lleol a chyfryngau cymdeithasol megis rhwydweithio cymdeithasol, blogiau a Twitter i godi eich proffil ac ymwneud â'r gymuned.
- Rhwydweithio – dewch i adnabod eich ardal, y grwpiau cymunedol, asiantaethau ac ati, a byddwch yn weladwy.
- Gwneud gwaith achos ar ran unigolion a grwpiau; bydd angen i chi ddeall i ba raddau y bydd eich swyddogaeth yn caniatáu i chi helpu a phryd y dylid cyfeirio pobl at swyddogion y cyngor.

Edrychwch ar wefan yr Uned Ddata am wybodaeth ddemograffig am eich ardal drwy ddilyn y ddolen yma **infobasecymru**

Bydd yn dweud wrthyf am y bobl sy'n byw yn eich ardal, am eu haddysg, iechyd, ethnigrwydd, oed a llawer mwy.

## Mae'n fwy na chyfarfodydd!

Mae swyddogaeth cynghorwyr yn y cyngor yn amrywio. Y ddelwedd ystrydebol o gynghorwyr yw bod yn rhaid iddynt eistedd drwy gyfarfodydd pwyllgor hir, rif y gwllith; mae cynghorwyr yn aml yn cael eu cloriannu gan y cyfryngau ar sail eu presenoldeb mewn cyfarfodydd yn unig!

Gofynnwch i'ch mentor a allwch dreulio ychydig ddyddiau gyda hwy i gael profiad uniongyrchol o sut beth yw bod yn gynghorydd. Efallai yr hoffech arsylwi ar ambell gyfarfod cyngor neu gymryd rhan mewn adolygiadau craffu neu fforymau holi cyhoeddus.

Mae cyfarfodydd cyngor yn bwysig, a gallant yn aml fod yn ymrwymiad sy'n llyncu amser ond, fel y dengys y wybodaeth uchod, mae swyddogaethau allweddol cynghorwyr a'u hamser mwyaf gwerthfawr yn cael ei dreulio yn eu cymunedau, yn cwrdd â phobl leol mewn digwyddiadau lleol neu gyfarfodydd cymunedol neu'n gweithio gyda swyddogion y cyngor ac asiantaethau partner ar faterion lleol.

O ran cyfarfodydd y cyngor, bydd gan y Cyngor gyfansoddiad sy'n egluro strwythurau a gweithdrefnau gwneud penderfyniadau, cylch gorchwyl pwyllgorau mewnol, swyddogaeth a chyfrifoldebau swyddi unigol, rheolau sefydlog ar gyfer cyfarfodydd, codau ymddygiad a rheoliadau ariannol.

Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd cyngor yn agored i'r cyhoedd, ond ar adegau mae angen cynnal cyfarfodydd neu rannau o gyfarfodydd yn breifat os oes gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif yn cael ei thrafod.

Gwylwch ddarllediadau gwe o gyfarfodydd mewn gwahanol gynghorau er mwyn cymharu arddull a chynnwys. Maent yn hawdd i'w canfod: rhwng enw cyngor a'r gair 'webcast' yn Google.

Dyma grynodedb o'r pwyllgorau y gallai cynghorwyr fod yn rhan ohonynt:

- **Cyngor** – Mae pob cynghorydd yn aelod o'r Cyngor llawn sy'n gosod y polisiau a'r gyllideb gyffredinol.
- **Cabinet** – Bydd nifer fechan o gynghorwyr uwch yn ffurfio'r Cabinet neu'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r Cabinet, dan arweiniad yr arweinydd, yn cyflawni swyddogaethau gweithredol y cyngor.
- **Trosolwg a Chraffu** – mae'r holl gynghorwyr eraill yn gwneud gwaith trosolwg a chraffu ar berfformiad y Cyngor a chyrff allanol eraill. Mae trosolwg a chraffu yn hanfodol gan ei fod yn dal cynghorwyr gweithredol yn atebol am eu penderfyniadau, eu polisiau a pherfformiad gwasanaethau'r cyngor. Mae aelodau craffu hefyd yn chwarae rhan werthfawr wrth gynorthwyo i adolygu a datblygu polisiau yn ogystal ag archwilio materion sy'n peri pryder i'r gymuned leol, a gweithgareddau cyrff cyhoeddus eraill. Er nad yw pwyllgorau craffu yn gwneud penderfyniadau, gallant wneud argymhellion.

Cewch ragor o wybodaeth am graffu yma: gwefan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ([www.cfps.org.uk/](http://www.cfps.org.uk/))

- **Pwyllgorau rheoleiddiol** – mae llawer o gynghorwyr hefyd yn aelodau o bwyllgorau sy'n ymdrin â chynllunio a thrwyddedu.
- **Pwyllgorau eraill** – gall rhai cynghorwyr hefyd fod yn aelodau o bwyllgorau eraill, megis pwyllgor archwilio neu safonau, neu bwyllgorau ad hoc megis pwyllgorau penodi.
- **Cyrff eraill** – Mae cynghorwyr hefyd yn cael eu penodi i gyrff lleol allanol megis cyrff llywodraethu ysgolion a phartneriaethau lleol, naill ai fel cynrychiolwyr y Cyngor, fel ymddiriedolwyr neu fel cyfarwyddwyr yn eu hawl eu hunain. Mae rhai cynghorwyr hefyd yn aelodau o awdurdodau tân ac achub a, lle bo'n berthnasol, awdurdodau parciau cenedlaethol.



Mae rhai cynghorwyr yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol o'u gweithgareddau. Edrychwch ar wefannau rhai cynghorau i ddarllen am weithgareddau a chyflawniadau cynghorwyr am y flwyddyn.

Gofynnwch i'ch mentor am strwythur pwyllgorau eu hawdurdod a'u profiadau personol o'u swyddogaeth ar wahanol bwyllgorau.

## Cyflogau Cynghorwyr

Mae gan gynghorwyr yr hawl i gael cyflog am yr ymrwymiad a'r cyfraniad y maent yn ei wneud. Mae cynghorwyr ar bob lefel yn cyflawni swyddogaeth anodd a heriol, a all effeithio ar eu gyrfaedd proffesiynol ac ar eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae'n iawn bod cynghorwyr yn cael eu cydnabod a'u talu'n addas am y cyfraniad hanfodol a gwerthfawr hwn i fywyd cyhoeddus.

Bydd pob cynghorydd yn cael Cyflog Sylfaenol. Gall hwn newid bob blwyddyn. Yn 2015/16 mae'n werth £13,300. Mae gan gynghorwyr hefyd yr hawl i gael lwfansau teithio, a gall y rhai a chanddynt gyfrifoldebau gofalu hefyd gael lwfans gofal ychwanegol o £403 y mis. Gallwch hawlio eich cyflog sylfaenol tra byddwch yn cymryd absenoldeb teuluol megis absenoldeb rhiant. Gall cynghorwyr hefyd ymuno â'r cynllun pensiwn llywodraeth leol.

Bydd y cynghorwyr hynny sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau penodol megis aelodau o'r weithrediaeth/cabinet, cadeiryddion pwyllgorau neu arweinwyr grwpiau yn cael taliad ychwanegol. Bydd y taliad ychwanegol hwn yn cael ei gyfrifo ar sail maint yr awdurdod.

Mae'r fframwaith ar gyfer cyflogau cynghorwyr yn cael ei osod gan gorff o'r enw Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Mae'r swm a fydd yn cael ei dalu i gynghorwyr yn cael ei bennu yn eu hadroddiad blynyddol. Cewch ragor o wybodaeth drwy ddilyn y ddolen hon: adroddiad y Panel 2015–16 ([www.gov.wales/irpwsb/home/publication/2015-16/annual-report-2015-16/?lang=cy](http://www.gov.wales/irpwsb/home/publication/2015-16/annual-report-2015-16/?lang=cy)).

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi manylion eich cyflog ac unrhyw lwfansau yr ydych yn eu cael.

## Rheolau a rheoliadau cynghorwyr!

Disgwylir i bob cynghorydd gynnal y safonau ymddygiad uchaf. Mae cynghorwyr wedi'u hymrwymo gan **God Ymddygiad** statudol sy'n amlinellu'r hyn a ddisgwylir ganddynt o ran ymddygiad. Mae'r cod hwn yn berthnasol i gynghorwyr pryd bynnag y maent yn gweithredu fel cynghorydd, neu'n ymddangos fel eu bod yn gweithredu fel cynghorydd. Hynny yw, drwy'r amser fwy neu lai!

Gall achosion o dorri'r cod gael eu cyfeirio at yr awdurdod lleol neu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gall y sancsiynau gynnwys ymddiheuriadau ffurfiol, hyfforddiant neu hyd yn oed atal neu ddatgymhwyso o'r swydd. Disgwylir i gynghorwyr gytuno'n ffurfiol i lynu at y Cod wrth lofnodi i dderbyn y swydd ar ôl cael eu hethol.

Gallwch weld testun llawn y Cod Ymddygiad ar wefan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymddygiad ([www.ombudsman-wales.org.uk/~media/Files/CodeofConductguidance\\_W/Code of Conduct CCCBC NPA reissued March 2015 Welsh.ashx](http://www.ombudsman-wales.org.uk/~media/Files/CodeofConductguidance_W/Code of Conduct CCCBC NPA reissued March 2015 Welsh.ashx)).

Edrychwch yn llyfr achosion yr Ombwdsmon am enghreifftiau o faterion a gyfeiriwyd ato i gael eu hymchwilio, a'r canfyddiadau: Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad ([www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB/publications/The-Code-of-Conduct-Casebook.aspx](http://www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB/publications/The-Code-of-Conduct-Casebook.aspx)).

Gofynnwch i'ch mentor am unrhyw achosion lleol o dorri'r Cod Ymddygiad a'r camau a gymerwyd yn sgil hynny.

## 7. Beth mae swyddogion y cyngor yn ei wneud?

Mae'r swyddogion yn cael eu cyflogi i reoli gwaith y Cyngor ac i helpu'r cynghorwyr i weithredu eu polisiau. Mae rhai swyddi yn y Cyngor yn rhai statudol, er enghraifft y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig (sydd hefyd yn cael ei alw'n Brif Weithredwr neu'r Rheolwr Gyfarwyddwr); y Swyddog Adran 151, sy'n gyfrifol am sicrhau uniondeb ariannol (sef y Cyfarwyddwr Cyllid fel arfer) a'r Swyddog Monitro, sy'n sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidd yn gweithio'n agos â'r holl gynghorwyr i sicrhau bod y cynghorwyr a'r pwyllgorau yn cael cefnogaeth briodol.

Mae'r swyddogion yn weithwyr proffesiynol sy'n wleidyddol niwtral. Maent yn arbenigwyr yn eu meysydd, ac mae dyletswydd arnynt i roi cyngor diduedd i gynghorwyr er mwyn eu helpu i wneud y penderfyniadau iawn.

## 8. Sut ydw i'n sefyll i gael fy ethol fel cynghorydd?

Gall unrhyw un, bron, fod yn gynghorydd. Mae'n bwysig iawn bod amrywiaeth o wahanol bobl yn cael eu hethol i gynrychioli gwahanol gymunedau. Gallech fod yn gweithio neu'n ddi-waith. Gall y rhaglen fentora eich helpu i baratoi am etholiad ond nid yw'n warant o lwyddiant!

Mae'r rheolau ar bwy sy'n cael sefyll yn dweud bod angen i chi:

- fod yn o leiaf 18 oed ar ddiwrnod eich enwebiad
- fod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd o unrhyw aelod-wladwriaeth arall o'r Undeb Ewropeaidd.

**A** bodloni o leiaf un o'r pedwar maen prawf canlynol:

1. Rydych, a byddwch yn parhau i fod, yn gofrestredig fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol lle yr hoffech sefyll o ddiwrnod eich enwebiad ymlaen.
2. Rydych wedi meddiannu, fel perchennog neu denant, dir neu eiddo arall yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod y 12 mis cyfan cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad.
3. Mae eich prif neu eich unig weithle yn ystod y 12 mis cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad wedi bod yn ardal yr awdurdod lleol.
4. Rydych wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod y 12 mis cyfan cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad.

**Serch hynny, ni allwch fod yn Gyngorydd:**

1. Os ydych wedi'ch cyflogi gan yr awdurdod lleol yr ydych chi'n dymuno sefyll etholiad ar ei gyfer, neu os ydych yn dal swydd â thâl o dan yr awdurdod hwnnw (gan gynnwys cyd-fyrddau neu gyd-bwyllgorau). Sylwch y gallech chi 'fod wedi'ch cyflogi gan yr awdurdod lleol' os ydych chi, er enghraifft, yn gweithio mewn rhai ysgolion penodol neu yn y gwasanaeth tân ac achub. Yn gyffredinol, os ydych chi'n gweithio yn y sector cyhoeddus, byddai'n syniad da ichi holi eich adran AD a oes modd ichi sefyll i gael eich ethol. Cewch arweiniad hefyd ar wefan y Comisiwn Etholiadol (dolen isod).
2. Os ydych yn dal swydd a gyfyngir yn wleidyddol mewn awdurdod lleol. (Os ydych yn cael eich cyflogi gan gyngor lleol mae rhai swyddi – a phob swydd uwchlaw pwynt 49 ar y raddfa gyflogau – yn rhai a gyfyngir yn wleidyddol. Holwch eich cyngor am fwy o fanylion).
3. Os ydych yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad, neu orchymyn interim.
4. Os ydych wedi'ch dedfrydu i gyfnod o dri mis neu ragor yn y carchar (gan gynnwys dedfrydau gohiriedig), heb yr opsiwn i dalu cosb ariannol, yn ystod y pum mlynedd cyn diwrnod yr etholiad.
5. Os ydych wedi'ch datgymhwyso o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (sy'n ymdrin ag arferion etholiadol twyllodrus neu anghyfreithlon, a throseddau sy'n ymwneud â chyfraniadau ariannol).

Gall rhywun hefyd gael ei ddatgymhwyso rhag sefyll etholiad i awdurdod lleol yn dilyn penderfyniad gan Banel Dyfarnu Annibynnol Cymru.

Cewch yr holl wybodaeth hon a rhagor o wefan y Comisiwn Etholiadol: Y Comisiwn Etholiadol ([www.electoralcommission.org.uk/cymru](http://www.electoralcommission.org.uk/cymru)).

**Gallwch sefyll etholiad fel ymgeisydd annibynnol neu fel ymgeisydd ar ran grŵp/plaid wleidyddol.** Os ydych chi'n aelod o blaid wleidyddol, neu'n bwriadu ymuno ag un neu sefyll fel ymgeisydd ar ei rhan, bydd asiantiaid y blaid yn gweithio drosoch. Os ydych chi'n sefyll fel aelod annibynnol bydd angen ichi ofyn am gyngor gan wahanol asiantaethau. Cewch fwy o fanylion am y prif bleidiau gwleidyddol fan hyn:

- Plaid Cymru ([www.plaidcymru.org/](http://www.plaidcymru.org/))
- Llafur Cymru ([www.welshlabour.org.uk/](http://www.welshlabour.org.uk/))
- Y Ceidwadwyr Cymreig ([www.welshconservatives.com/](http://www.welshconservatives.com/))
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ([www.welshlibdems.org.uk/](http://www.welshlibdems.org.uk/))
- UKIP yng Nghymru ([www.ukip.wales/](http://www.ukip.wales/))
- Plaid Werdd Cymru ([www.walesgreenparty.org.uk/](http://www.walesgreenparty.org.uk/))

Os hoffech chi fwy o wybodaeth am rôl cynghorwyr annibynnol, mae gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol grŵp ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol. Cewch fwy o wybodaeth o'r ddolen hon: Grŵp Annibynnol yr LGA ([www.lgaindependent.local.gov.uk/](http://www.lgaindependent.local.gov.uk/)).

Mae rhestr lawn o bleidiau gwleidyddol cofrestredig ar gael gan y Comisiwn Etholiadol ([www.electoralcommission.org.uk/cymru](http://www.electoralcommission.org.uk/cymru)) lle gallwch hefyd ganfod yr holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen fel ymgeisydd, h.y.

- sefyll am etholiad
- ymgyrchu
- derbyn cyfraniadau
- gwario arian
- eich hawliau fel ymgeisydd, gan gynnwys mynediad i drafodion yr etholiad
- adrodd ar ôl yr etholiad

Gofynnwch i'ch mentor:

- Pam y gwnaethant sefyll i gael eu hethol
- Sut y cawsant eu dethol i fod yn ymgeisydd
- Beth y byddent yn ei wneud yn wahanol pe byddent yn sefyll am y tro cyntaf eto
- A ydynt wedi gallu cael yr effaith yr oeddent wedi gobeithio ei chael
- Y cwestiynau a ofynnodd yr etholwyr iddynt pan oeddent yn ymgeiswyr.